# RHWYDWAITH ARDDANGOS

## Rhagfyr 2017 – Chwefror 2018

### Sgôr RAG

■ Coch ■ Oren ■ Gwyrdd

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Prosiectau a digwyddiadau yn unol â'r targed |

### Rhwydwaith Safleoedd Arddangos

| | |
|---|---|
| Safle Arloesedd | 8 |
| Safle Arddangos | 12 |
| Safle Ffocws (Cyfanswm Cronnus) | 90 |

### Digwyddiadau'r Rhwydwaith Arddangos

Rhagfyr 2017 – Chwefror 2018

| Disgrifiad | Cyfanswm Digwyddiadau (Targed Blynyddol) | Cyfanswm Digwyddiadau (A Gynhaliwyd) |
|---|---|---|
| Digwyddiadau Safleoedd Arloesedd | 32 | 6 |
| Digwyddiadau Safleoedd Arddangos | 36 | 16 |
| Digwyddiadau Safleoedd Ffocws | 54 | 19 |


**656** WEDI MYNYCHU DIGWYDDIADAU'R RHWYDWAITH ARDDANGOS




### Adolygiadau adborth a gwerthuso gan gyfranogwyr wedi mynychu digwyddiadau'r Rhwydwaith Arddangos

Mae'r siartiau isod yn rhoi trosolwg o'r adborth a dderbyniwyd gan gyfranogwyr oedd wedi mynychu digwyddiadau'r Rhwydwaith Arddangos. Noder, mae'r data a ddefnyddiwyd i greu'r siartiau hyn wedi'i gymryd o 1,200 o daflenni adborth a gwblhawyd gan unigolion mewn digwyddiadau yn ystod cyfnod o 12 mis hyd at Chwefror 2018.


Yn gyffredinol, roedd y digwyddiad Cyswllt Ffermio hwn yn:





O ganlyniad i'r digwyddiad hwn, nodwch i ba raddau mae'r digwyddiad wedi codi eich ymwybyddiaeth o'r pwnc?





O ganlyniad i'r digwyddiad hwn, a ydych yn bwriadu newid eich arferion ffermio/coedwigaeth?




O ganlyniad i'r digwyddiad hwn, a ydych wedi dysgu unrhyw beth newydd ynglŷn â'r pwnc?




### Rhai engrheifftiau o brofiadau cyfranogwyr:



#### Defaid

- Defnyddio cynllun rheoli maetholion a gweithredu system bori gylchdro yn dilyn digwyddiad agored yn Safle Arddangos Llysun
- Deall pwysigrwydd profi am ymwrthedd i driniaeth llyngyr wrth besgi ŵyn o ganlyniad i fynychu digwyddiad dilyniant â chysylltiad â Safle Arddangos Rhiwgriafol
- Rhoi cynllun 5 pwynt ar gyfer lleihau cloffni ar waith yn dilyn prosiect yn Safle Arddangos Rhiwgriafol
- Gwerthuso opsiynau o ran bwydo dogn cytbwys cyflawn i famogiaid cyn ŵyna yn dilyn diwrnod agored yn Safle Arddangos Hendy

#### Bîff

- Ymchwilio magu heffrod ar gytundeb ar ôl darllen erthygl dechnegol am fentrau Safle Arddangos Rhiwgriafol
- Cais i gynnal cyfarfod yn Ne Cymru i drafod y prosiect gaeafu allan ar waith yn Safle Arddangos Cae Haidd yng Ngogledd Cymru. Yn ystod y cyfarfod neilltuodd wyth ffermwr le mewn clinig trwy eu Swyddog Datblygu lleol
- Gweithredu rhaglen gydamseru AI yn dilyn mynychu digwyddiad a gynhaliwyd ar Safle Ffocws Fferam Gyd

#### Llaeth

- Yn dilyn ymweliad â Safle Arddangos Marian Mawr mae aelodau o grŵp trafod yn cynnal profion genomeg (GeneTraker) ar wartheg unigol

#### Dofednod

- Ailymweld cynllun iechyd ar gyfer yr haid gan gyflwyno brechlynnau lle'n berthnasol ar ôl mynychu digwyddiad agored ar **'Brechu i gynyddu proffidioldeb eich uned ddofednod'**
- Cwblhau archwiliad ynni ar gyfer uned ddofednod yn dilyn cyfarfod **'Lleihau costau ynni yn eich uned ddofednod'**

## Prosiectau ar fferm

### Canolbwyntio ar Faeth y Fuwch

Mae prosiect ar waith yn Safle Arloesedd Llysfasi yn treialu system fwydo Compact TMR. Bwriad defnyddio Compact TMR yw lleihau'r amser y mae buchod yn treulio yn ceisio chwilio am borthiant penodol ymysg silwair. Cyflawnir hyn gan drefn lwytho wagen benodol a trwy ychwanegu pwysau penodol o hylif pH niwtral i glymu'r elfennau i'r silwair.



Mae'r fuches yn Llysfasi wedi ei rhannu a bydd un grŵp yn derbyn y TMR presennol a'r llall yn derbyn Compact TMR am gyfnod o 6 wythnos. Mae'r prosiect yn edrych ar y gwahaniaethau rhwng y ddau grŵp o ran ymddygiad a chynnyrch, ynghyd â monitro cnoi cil a phrofi starts mewn ysgarthion i fonitro iechyd y rwmen.

Cliciwch yma i ddysgu mwy.

### Canolbwyntio ar Ŵyna Tu Allan

**Penwern – newid i system ŵyna tu allan**

Mae'r prosiect cydweithredol hwn sydd ar waith yn Fferm Penwern wedi gweld gwelliannau o ran iechyd y ddiadell a maeth y famog yn dilyn gweithio gyda milfeddyg lleol ac arbenigwr pori cylchdro er mwyn newid o system ŵyna dan do i system ŵyna tu allan. Mae'r newid hwn hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar gynhyrchiant a chostau cynhyrchu.

Mae'r prosiect yn cynnwys y gweithgareddau canlynol, oll yn cynnig manteision o ran iechyd a lles anifeiliaid:

- Proffilio metabolaidd – sicrhau bod y diet yn addas
- Asesu sgôr cyflwr – rheoli'r ddiadell yn weithredol
- Cyfrif wyau ysgarthol – rheoli parasitiaid ac unrhyw ymwrthedd
- Cadw cofnodion cywir sy'n galluogi rheolaeth ragweithiol – lleihau marwolaethau

Mae'r prosiect hefyd wedi arwain at yr arbedion ariannol canlynol:

- £4,510 mewn arbedion ariannol/incwm
- Oddeutu 123 o oriau wedi'u harbed sy'n cyfateb i £1,230 mewn arbedion

Cliciwch yma ac ewch i dudalen 5 i ddysgu mwy.



### Canolbwyntio ar Dechnoleg Synwyryddion

Mae prosiect yn Safle Ffocws Tir Barwn yn archwilio sut y gallai technoleg synwyryddion sicrhau'r perfformiad gorau a bod o fudd i iechyd a lles brwyliaid mewn systemau dofednod dwys. Bydd synhwyrydd diwyfr sy'n cofnodi tymheredd, lleithder a llif dŵr yn cael ei ddefnyddio mewn un uned tra bod yr uned arall yn defnyddio cofnodion rheoli presennol. Bydd iechyd, lles a pherfformiad yr adar yn cael eu monitro er mwyn cymharu a dynodi os oes unrhyw fantais i ddefnyddio technoleg, a sut y gellir ei ddefnyddio i gefnogi safonau lles uchel.

Cliciwch yma ac ewch i dudalen 5 i ddarllen mwy.

## Cyfathrebu'r Canlyniadau

Mae cyfathrebu canlyniadau'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y rhwydwaith arddangos yn hanfodol. Mae Cyswllt Ffermio yn defnyddio dulliau amrywiol i sicrhau bos cymaint o bobl â phosibl yn derbyn yr wybodaeth sy'n deillio o'r prosiectau, gan gynnwys:

- Erthyglau: 20 wedi'u creu – mae'r holl erthyglau ar y wefan, a gan ddibynnu ar y cynnwys, mae rhai'n cael eu rhannu gyda'r Farmers Guardian
- Blogiau a Vlogiau i gynnig diweddariadau o'r safleoedd – mae 7 wedi'u creu
- Cyfryngau Cymdeithasol:
  Diweddariadau Facebook: 44
  Diweddariadau Twitter: 54
- Fideos: 8

  Ymweliadau â'r wefan:
  Safleoedd Arloesedd: saesneg 152, cymraeg 20
  Safleoedd Arddangos: saesneg 441, cymraeg 45
  Safleoedd Ffocws: saesneg 302, cymraeg 46




### Rhai o uchafbwyntiau ein llwyfannau **Cyfryngau Cymdeithasol** ac **Arlein...**

**Ymgyrch #Nutri7 / #7Maeth ar ein llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol:**

Wythnos o fideos, trafodaethau ac erthyglau dyddiol ar faeth y famog gan roi mewnweledIad i 7 system maeth y famog a ddefnyddir ar 7 o ffermydd Rhwydwaith Arddangos Cyswllt Ffermio. "Maeth y famog o safbwynt 7 ffermwr."




Facebook 29/01/2018

Wythnos Maeth y Famog – Diwrnod 1 / Ewe Nutrition Week – Day 1

Richard Roderick, Newton Farm, Scethrog, Brecon (FC Demonstration Site / Safle Arddangos CFf)

System hunan-fwydo / Self-feed system

#Nutri7 #7Maeth

**Pobl a gyrhaeddwyd: 7,016**
**Nifer o weithiau a wyliwyd y fideo: 2,177**
**Ymatebion, sylwadau a rhannu: 96**




Cliciwch ar y sgrin deledu i wylio fideo Richard.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government